Ministry of Defence

# Hanes Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn a Negeseuon Allweddol

## Y Lluoedd Wrth Gefn

Mae gan y Lluoedd Wrth Gefn rôl hollbwysig yn ein Lluoedd Arfog a, drwy eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, maent wedi cyfrannu'n hanfodol at amddiffyn diogelwch y wlad gartref a thramor. Mae Milwyr Wrth Gefn yn rhoi o'u hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn, gan gydbwyso eu bywyd personol gyda gyrfa filwrol.

Mae gan Filwyr Wrth Gefn rôl ganolog, ochr yn ochr â Milwyr Parhaol, i fodloni gofynion Amddiffyn, yn enwedig wrth ddarparu'r gallu mewn meysydd arbenigol fel meddygaeth a thechnoleg seibr. Mae unedau wrth gefn yn cael eu hyfforddi a'u paru ag unedau Milwyr Parhaol ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw yn ôl yr angen.

Ar hyn o bryd, mae Milwyr Wrth Gefn yn cefnogi ymgyrchoedd a gwaith ledled y byd, mewn lleoliadau fel Afghanistan, Gogledd Irac, Bahrain a Chyprus, ac yn rhan o'r ymgyrch i drechu môr-ladrata a sicrhau diogelwch morol ar y môr. Yn ogystal â hyn, mae Milwyr Wrth Gefn wedi helpu i ymladd Ebola yn Sierra Leone ac maent yn hyfforddi lluoedd y Llywodraeth yn Ukrain.

## Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn

Mae Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn gyfle i gydnabod a dathlu cyfraniad pwysig Milwyr Wrth Gefn i alluoedd amddiffyn y DU. Mae Milwyr Wrth Gefn wedi bod â rôl allweddol yn ein Lluoedd Arfog erioed a byddant yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr at y genedl, ynghyd â'u gwaith bob dydd.

Cynhelir Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn ddydd Mercher 24 Mehefin 2015 fel un mewn cyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at Ddiwrnod y Lluoedd Arfog i ddathlu'r holl unigolion hynny sy'n rhan o'r Lluoedd Wrth Gefn. Dyma gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr Milwyr Wrth Gefn yn ein Lluoedd Arfog. Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog, a arferai gael ei alw'n 'Ddiwrnod Iwnifform i'r Gwaith', yn rhoi cyfle i'r DU gyfan ddathlu ein Lluoedd Wrth Gefn ac i Filwyr Wrth Gefn ddangos eu balchder yn eu gwasanaeth.

## Dangos eich cefnogaeth i Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn

Mae Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn gyfle i gyflogwyr gydnabod eu gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn a dathlu eu cyfraniad. Anogir cyflogwyr i wahodd eu gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn i ddod i'w gwaith yn eu hiwnifform (os yw hynny'n briodol). Gall cyflogwyr ddangos eu cefnogaeth hefyd drwy gynnal digwyddiadau a seminarau i hyrwyddo gwaith eu gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn hefyd.

## Negeseuon Allweddol

### Beth mae Milwyr Wrth Gefn yn ei wneud?

Mae'r Lluoedd Arfog yn cynnwys Milwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn. Tra bod gan Filwyr Parhaol yrfa lawn amser yn y Lluoedd Arfog, mae Milwyr Wrth Gefn yn rhoi o'u hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn, gan gydbwyso eu bywyd personol gyda gyrfa filwrol. Mae gan y Lluoedd Wrth Gefn rôl hollbwysig yn ein Lluoedd Arfog a, drwy eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, maent wedi cyfrannu'n hanfodol at amddiffyn diogelwch y wlad gartref a thramor. Ar hyn o bryd, mae Milwyr Wrth Gefn yn cefnogi ymgyrchoedd a gwaith ledled y byd, gan gynnwys yn Afghanistan, Gogledd Irac, Cyprus a Bosnia a Herzegovina, ac wedi bod yn rhan o ymgais y DU i ymladd Ebola yn Sierra Leone ac maent yn hyfforddi lluoedd y Llywodraeth yn Ukrain.

## Beth yw manteision cyflogi Milwyr Wrth Gefn?

Mae gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn yn dysgu sgiliau newydd fel arweinyddiaeth, rheoli prosiect a chyfathrebu a fydd o fudd i'w cyflogwyr yn y gweithle.

## Pa gymorth sydd ar gael i gyflogwyr Milwyr Wrth Gefn?

Mae pecyn cymorth ariannol a chymorth o fath arall ar gael i bob cyflogwr i'w helpu i ymdopi ag absenoldeb a lleihau'r effaith ar eu busnes. Mae cymorth ariannol ychwanegol ar gael ar gyfer BBaChau i gydnabod yr effaith gynyddol y gall absenoldeb ei chael ar gwmnïau llai. Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i gyflogwyr, ewch i:

**http://www.sabre.mod.uk/Employers/The-Mobilisation-process/Financial-assistance**

a

**https://www.gov.uk/government/groups/defence-relationship-management**

## Beth yw manteision gwasanaeth y Lluoedd Wrth Gefn i Filwyr Wrth Gefn?

Mae ymuno â'r Lluoedd Wrth Gefn yn rhoi'r cyfle i chi fwynhau profiadau anhygoel a newydd na fyddech yn cael y cyfle i'w gwneud yn eich bywyd neu'ch gwaith bob dydd. Bydd gennych y cyfle hefyd i ddatblygu sgiliau newydd a gwella'ch sgiliau presennol fel arweinyddiaeth, gweithio dan bwysau, gwaith tîm a chyfathrebu.

Cewch hyfforddiant cyffrous, heb ei ail, gan gynnwys hyfforddiant anturus fel caiacio, abseilio a sgwba-blymio. Bydd eich hyfforddiant a'ch cymwysterau'n cael eu cydnabod a'u parchu yn ôl yn y gweithle.

Mae pob math o wahanol rolau cyffrous yn y Lluoedd Wrth Gefn a fydd yn eich herio ac yn talu ar eu canfed. Felly, gallwch ddefnyddio rhai o'r sgiliau sydd gennych yn barod neu roi cynnig ar rywbeth sy'n gwbl wahanol i'ch bywyd neu'ch gwaith bob dydd. Byddwch yn derbyn pecyn cyflog hael hefyd fel Milwr Wrth Gefn.

# Cwestiynau Cyffredin

## Fel Milwr Wrth Gefn, beth alla i ei wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?

Os ydych chi'n Filwr Wrth Gefn mewn gwasanaeth, fe'ch gwahoddir i wisgo'ch iwnifform i'r gwaith ar Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn i ddangos eich balchder yn eich gwasanaeth. Gallech hefyd siarad am eich profiadau yn y Lluoedd Wrth Gefn mewn sgwrs i'ch cydweithwyr.

## Fel Gwirfoddolwr Llu Cadetiaid y Fyddin, beth alla i ei wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?

Gwahoddir Gwirfoddolwyr Oedolion Llu Cadetiaid y Fyddin hefyd i wisgo eu hiwnifform ar Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn os yw hynny'n briodol. Bydd eu sefydliad Llu Cadetiaid y Fyddin perthnasol yn darparu cyfarwyddiadau ac arweiniad.

## Fel cyflogwr, beth alla i ei wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?

Os ydych chi'n cyflogi Milwyr Wrth Gefn, gallwch gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn yn y lle cyntaf drwy annog eich gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn i wisgo eu hiwnifform i'r gwaith. Gallech hefyd arddangos posteri, gosod erthygl ar y rhyngrwyd neu ysgrifennu datganiad i'r wasg yn dangos eich cefnogaeth i'r Lluoedd Wrth Gefn neu gynnal sgwrs yn y gweithle a threfnu bod eich gweithwyr sy'n Filwyr Wrth Gefn yn siarad.

## Dydw i ddim yn gallu gwisgo fy iwnifform i'r gwaith. Beth arall alla i ei wneud i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn?

Efallai na fydd yn briodol gwisgo iwnifform i'r gwaith mewn rhai galwedigaethau. Mewn achosion fel hyn, gall Milwyr Wrth Gefn a'u cyflogwyr ddangos eu cefnogaeth i Ddiwrnod y Lluoedd Wrth Gefn drwy arddangos posteri, ysgrifennu erthyglau a chynnal digwyddiadau i gydnabod a dathlu gwasanaeth y Lluoedd Wrth Gefn.

## Alla i wisgo fy iwnifform yn gyhoeddus?

Er nad oes gwaharddiad ar wisgo'r iwnifform yn gyhoeddus, bydd eich Prif Swyddog neu Bennaeth yn rhoi arweiniad i chi ar yr hyn sy'n briodol, gan ystyried eich amgylchiadau lleol chi. Gallai hyn gynnwys peidio â gwisgo'ch iwnifform y tu allan i'r gweithle; gorchuddio'r iwnifform ac arwyddluniau milwrol wrth deithio i ac o'r gwaith; neu gadw at eich trefniadau presennol. Ym mhob achos, mae'n bwysig eich bod yn wyliadwrus ac yn rhoi gwybod am unrhyw beth amheus ar unwaith.